

Her Dysgu Gartref

# Milfeddyg y Sŵ

Beth am ofyn i oedolyn eich helpu i adrodd diwrnodau'r wythnos yn y drefn gywir? Tynnwch luniau o'r pethau rydych chi'n eu gwneud bob dydd.




Ydych chi erioed wedi ymweld â sŵ? Beth am dynnu neu beintio llun o'ch hoff anifail yn y sŵ?





Mae milfeddyg yn swydd bwysig am ei fod yn gwella anifeiliaid. Siaradwch gydag oedolyn am ba swydd yr hoffech chi ei gwneud ar ôl tyfu'n fawr.



Beth am sefydlu meddygfa milfeddyg ar gyfer eich teganau meddal gartref? Gallech chi wirio'u tymheredd, rhwymo'u coesau, eu lapio'n gynnes a gwrando ar guriad eu calonnau? Gallech gymryd ffotograffau i'w rhannu gyda ffrindiau ac athrawon.

